Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **D**ydd Gwener, 9 Tachwedd 2007

Teitl: **Tywysydd Newydd Cymru i ddod â phrifysgolion a'r cyhoedd yn nes at ei gilydd**

Bydd pobl yng Nghymru'n gallu chwarae rôl fwy rhyngweithiol o lawer yng ngwaith sefydliadau addysg uwch, diolch i bartneriaeth gydweithrediadol o sefydliadau blaenaf Cymru.

Mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg, Amgueddfa Cymru, Techniquest a BBC Cymru wedi dod at ei gilydd a gwneud cais llwyddiannus i ddod yn unig Dywysydd Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a bellach byddant yn arwain prifysgolion Cymru i weithio'n agosach gyda'r cyhoedd.

Bydd Tywysydd Cymru yn annog prifysgolion i wneud cyfraniadau ehangach at gymdeithas trwy ymwneud â chymunedau'n llawnach yn eu gwaith ac mae'n rhan o'r fenter fwyaf o'i math sydd erioed wedi'i lansio yn y DU.

Mae cyfanswm o chwe thywysydd i'w sefydlu, gan gynnwys eraill ym Manceinion, Newcastle, Norwich, Llundain a Chaeredin. Hefyd bydd canolfan gydlynu ledled y DU ym Mryste, a fydd yn gweithio ar hyd y fenter i hyrwyddo arfer gorau a chynnig un man

cyswllt ar gyfer y sector addysg uwch cyfan. Dewiswyd Tywysydd Cymru o 87 o gynigwyr o'r DU a bydd yn rhannu mewn cronfa gyllido gwerth £9.2M dros bedair blynedd.

Gan weithio fel catalydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch eraill ar draws Cymru, bydd Tywysydd Cymru yn agor cyfleoedd i bobl y tu allan i gymunedau academaidd ddeall yn well ymchwil yr ymgymerir â hi mewn prifysgolion, ei chefnogi a'i herio.

Meddai'r Athro Ken Woodhouse, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymgysylltu ym Mhrifysgol Caerdydd, sef prif bartner Tywysydd Cymru: "Bydd y fenter yn sicrhau bod dealltwriaeth well gan y cyhoedd o waith sefydliadau addysg uwch, yn ogystal â sicrhau bod ein prifysgolion yn deall sut mae'r cyhoedd yn teimlo am faterion sy'n amrywio o wyddoniaeth, busnes a'r celfyddydau i iaith, yr amgylchedd, hanes ac iechyd.

"Rydyn ni'n llawn cyffro am weithio gyda'n partneriaid i ledu uchelgais ac arfer gorau a fydd yn ysbrydoli staff academaidd ac ymchwil ledled Cymru gyfan. Rydyn ni'n awyddus i weld gweithgareddau i ymgysylltu â'r cyhoedd megis trafodaethau, deialogau neu arddangosfeydd, ymddangosiadau ar y cyfryngau neu waith allymestyn yn dod yn gymaint o flaenoriaeth i staff prifysgol â'r rolau mwy traddodiadol. Dyma pam mai un o'n tasgau cynharaf yw rhoi'r strwythur cywir ar waith i gefnogi academia mewn cynllunio a darparu gweithgareddau arloesol a gwerthfawr a fydd yn rhedeg ochr yn ochr ag ymchwil ac addysgu."

Ariennir Tywysyddion ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan gynghorau cyllido addysg uwch y DU, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a Chynghorau Ymchwil y DU (RCUK), mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Wellcome. Mae'n dod â nifer o noddwyr gwahanol ynghyd gyda'r nod cyffredin o gyflawni ymagwedd fwy cyfun a chadarnach at ymgysylltu â'r cyhoedd a chafodd ei greu i ateb arolwg a nododd rwystrau at gymryd rhan mewn ymgysylltu â'r cyhoedd gan sefydliadau addysg uwch.

Bydd Tywysydd Cymru'n mynd i'r afael â'r materion hyn trwy gymryd camau ymarferol i annog a gwobrwyo, gweithgareddau ymgysylltu arloesol a chyffrous a fydd yn cyrraedd pob grŵp trwy Gymru. Bydd yn arbrofi gyda phedair rhaglen newydd ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu canllaw arfer da ar sut i gyrraedd cynulleidfaoedd gyda

gweithgareddau sy'n annog trafodaeth gymdeithasol, foesegol a gwyddonol. Bydd y pedwar prosiect arbrofol yn archwilio pynciau mor amrywiol â'n lle ni yn y dyfodol; iechyd a lles, hinsawdd a chynaliadwyedd a hunaniaeth Cymru yn yr 21ain ganrif.

Meddai'r Athro Rod Dubrow-Marshall, Deon Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Morgannwg: "Mae ein Tywysydd yn ymwneud ag ymgysylltu â'r cymunedau rydyn ni'n byw ac yn gweithio gyda nhw, a gwrando arnynt a dysgu ganddynt ac rydyn ni'n barod i roi'n cynlluniau ar waith. Trwy gyfuno'r arbenigedd, y profiad a chwmpas daearyddol y sefydliadau blaengar hyn o Gymru, bydd Tywysydd Cymru'n rhoi ymdeimlad newydd o statws, ymdeimlad newydd o ddiben ac egni newydd i ymgysylltu â'r cyhoedd, nid yn unig yn ein sefydliadau, ond trwy Gymru gyfan."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae cefnogi'r fenter hon gyda phartneriaid eraill o'r DU wedi rhoi cyfle gwych i ni gefnogi sefydliadau yng Nghymru i adeiladu ar ein gwaith ardderchog i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud yn fwy dealladwy i'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â dechrau deialog go iawn. Mae amrywiaeth y partneriaid yn Nhywysydd Cymru'n golygu y byddan nhw'n gallu cydweithio â chymunedau ledled ein cenedl a dysgu ganddyn nhw."

Yn siarad ar ran Cynghorau Ymchwil y DU, meddai'r Athro Alan Thorpe, Hyrwyddwr RCUK ar gyfer Gwyddoniaeth mewn Cymdeithas a Phrif Weithredwr Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, 'Mae llawer o'r gwaith a wneir gan sefydliadau addysg uwch yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl, felly mae'n bwysig eu bod nhw'n gallu cael mynediad atyn nhw a chael dweud eu dweud. Bydd y Tywysyddion yn gwneud hyn trwy roi'r cyfle i bobl gymryd rhan yn uniongyrchol. Byddan nhw hefyd yn helpu i ailddiffinio beth mae'n ei olygu i fod yn brifysgol yn yr 21ain ganrif, gan wneud rhyngweithio â'r cyhoedd ac ystyriaethau cymdeithasol yn rhan graidd o rôl unrhyw aelod o'r staff neu fyfyriwr mewn unrhyw ddisgyblaeth.'

Meddai Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan: "Mae Cymru'n ennill enw da fel "canolbwynt ymchwil" o'r radd flaenaf gyda chyfoeth o ymchwil gyffrous iawn yn digwydd ym mhrifysgolion Cymru, sy'n berthnasol i'n bywydau bob dydd. Croesawaf y fenter hon

am fy mod i'n hyderus y bydd yn dod â gwaith dawn academaidd Cymru i gynulleidfa ehangach."

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth a chyfweliadau ar ran Tywysydd Cymru, cysylltwch â:
Lowri Jones, Is-adran Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Prifysgol Caerdydd
T: 02920 870 995, E: jones@caerdydd.ac.uk

Nodiadau i'r Golygyddion

Sylwadau partneriaid eraill ar fod yn rhan o Dywysydd Cymru

Ceri Black, Pennaeth Dysgu, Amgueddfa Cymru
"Mae Amgueddfa Cymru'n edrych ymlaen at weithio gyda Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg, Techniquest a BBC Cymru ar y fenter gyffrous hon, a fydd yn adeiladu ar, ac yn datblygu ein sgiliau mewn cyfathrebu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a grwpiau a sefydlu Cymru'n gadarn fel arweinydd ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd."

Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu, BBC Cymru
"Mae BBC Cymru bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gyfoethogi ei ymgysylltiad â'i gynulleidfa ac mae Tywysydd Cymru'n gyfle cyffrous i weithio gyda phartneriaid er mwyn arloesi yn y maes hwn."

Peter Trevitt, Prif Swyddog Gweithredol, Techniquest
"Mae Techniquest yn falch iawn o fod yn rhan o Dywysydd Cymru ac yn edrych ymlaen at ddechrau gwaith gyda'r bartneriaeth. Fel elusen addysgol gyda chenhadaeth i gynnwys pobl mewn gwyddoniaeth, mae'r Tywysydd yn cynnig fframwaith gwerthfawr i gryfhau deialog rhwng y cyhoedd, gwyddonwyr a'r gymuned academaidd, yn enwedig mewn meysydd pwysig megis newid yn yr hinsawdd a gwyddorau meddygol."

Ynghylch Tywysydd Cymru
Bydd Tywysydd Cymru'n arloesi gyda thechnegau newydd mewn ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru, ac yna rhannu'r profiad hwnnw dros rwydwaith Tywysydd y DU.

Bydd y partneriaid yn sefydlu Rhwydwaith Ymgysylltu Addysg Uwch Cymru (RhYAUC) i gynnig cyfleoedd i staff a myfyrwyr AU rwydweithio a rhannu syniadau am ymgysylltu â'r cyhoedd; penodi hyrwyddwr lefel uchel ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithio gyda staff uwch a rheolwyr prifysgolion i drafod newidiadau angenrheidiol i bolisïau ac arferion cyflogi; sefydlu system wobrau sy'n cydnabod rhagoriaeth ymgysylltu mewn amrywiaeth o sectorau; ac arbrofi gyda phedwar prosiect i brofi ymagweddau at gynulleidfaoedd newydd a thechnegau newydd.

Ynghylch Tywysyddion Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Bydd menter Tywysyddion Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn cydnabod, gwobrwyo ac adeiladu capasiti ar gyfer mwy o gyfathrebu rhwng academia ac ymchwilwyr a'r gymuned ehangach nad yw ar hyn o bryd yn ymwneud â phrifysgolion trwy ymchwil, addysgu a throsglwyddo gwybodaeth. Cafodd ei chreu i ateb arolwg gan y Gymdeithas Frenhinol, RCUK ac Ymddiriedolaeth Wellcome a nododd rwystrau rhag cymryd rhan mewn ymgysylltu â'r cyhoedd gan sefydliadau addysg uwch, yn amrywio o'r pwysau i gyhoeddi papurau ymchwil a denu cyllid, i gydraddoldeb parch rhwng gweithgareddau ymchwil ac ymgysylltu.

Bydd y chwe Thywysydd – canolfannau cydweithrediadol o sefydliadau addysg uwch (SAUau) a chyrff partneriaeth – ar flaen ymdrechion i newid y diwylliant mewn prifysgolion, gan gynorthwyo staff a myfyrwyr i gysylltu â'r cyhoedd. Maen nhw'n cynnwys rhwydweithiau o bartneriaid, gan gynnwys colegau addysg bellach, amgueddfeydd, orielau, busnesau, elusennau, teledu a'r wasg a chyrff cyhoeddus.

Mae'r Ganolfan Gydweithrediadol Genedlaethol yn cynnwys Prifysgol Bryste, Prifysgol Gorllewin Lloegr a phartneriaid eraill

Y pum tywysydd arall yw:

- Prifysgol Newcastle / Prifysgol Durham / Canolfan Oes
- Prifysgol Manceinion / Prifysgol Fetropolitan Manceinion / Prifysgol Salford a phartneriaid eraill
- Prifysgol Caeredin / Prifysgol Heriot-Watt / Prifysgol Napier / Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a phartneriaid eraill

- Coleg Prifysgol Llundain / Canolfan Southbank / Amgueddfa Prydain a phartneriaid eraill
- Prifysgol East Anglia a phartneriaid eraill

Ynghylch Partneriaid Tywysydd Cymru

1. Prifysgol Caerdydd

Caiff Prifysgol Caerdydd ei chydnabod mewn asesiadau annibynnol y llywodraeth yn un o brifysgolion addysgu ac ymchwil blaenaf Prydain. Sefydlwyd gan y Siarter Frenhinol ym 1883, ac heddiw mae'r Brifysgol yn cyfuno cyfleusterau modern nodedig ac ymagwedd ddeinamig at addysgu ac ymchwil. Mae ehangder arbenigedd y Brifysgol mewn ymchwil ac addysgu a arweinir gan ymchwil yn cynnwys: y dyniaethau; y gwyddorau naturiol, ffisegol, iechyd, bywyd a chymdeithasol; peirianneg a thechnoleg; paratoi ar gyfer ystod eang o broffesiynau; ac ymroddiad hirsefydlog i ddysgu gydol oes. Mae Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell o brifysgolion ymchwil blaenaf Prydain. http://www.caerdydd.ac.uk

2. Prifysgol Morgannwg

Mae Prifysgol Morgannwg yn brifysgol fodern a ffyniannus yn Ne Cymru. Mae ganddi ddau gampws, un yn Nhrefforest ger Pontypridd a'r llall yng nghalon canol dinas Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn canlyn un o'r cynlluniau datblygu mwyaf uchelgeisiol yn addysg uwch y DU, gwerth £55 miliwn.
http://www.glam.ac.uk

3. BBC Cymru

Mae BBC Cymru'n cynhyrchu miloedd o oriau o deledu a radio bob blwyddyn ac yn darparu gwefannau mwyaf poblogaidd y genedl (bbc.co.uk/wales a bbc.co.uk/cymru).
Darlledir rhaglenni iaith Saesneg dros BBC Radio Wales a thri rhwydwaith teledu – BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC 2W a chyda bron 8,000 o oriau o radio a theledu yn Gymraeg bob blwyddyn ar BBC Radio Cymru ac S4C – gan gynnwys Pobol y Cwm, opera sebon hwyaf y BBC unrhyw le yn y byd – mae BBC Cymru'n darparu mwy o ddarlledu mewn un iaith leiafrifol nag unrhyw ddarlledwr arall yn y byd. Mae BBC Cymru hefyd yn gyfrifol am rai o'r rhaglenni mwyaf blaenllaw ar deledu rhwydwaith gan gynnwys Doctor Who, Torchwood a'r rhaglen ddogfen aobryn, Tribe.

Yn ychwanegol at ei gynnyrch darlledu, mae BBC Cymru'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar draws Cymru mewn ystod o weithgareddau wyneb i wyneb. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau megis Proms yn y Parc, Canwr y Byd Caerdydd, Plant mewn Angen a'r rhaglen allymestyn gymunedol, Yma i Chi.

4. Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru gan Siarter Frenhinol ym 1907 ac fe'i cofrestrir yn endid ac elusen gyfreithiol dan ei henw. Heddiw mae'r sefydliad hwn yn rhedeg saith amgueddfa genedlaethol ar draws Cymru a'i henw swyddogol yw Amgueddfa Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru, sy'n elusen annibynnol, yn cael ei chyllid craidd trwy gymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC).

Ei hamcan craidd yw 'datblygu addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn cynnwys datblygu mynediad at gasgliadau cenedlaethol Cymru, ei astudio, ei gynnal a gofalu amdano er lles cymdeithas am byth. Mae'r Siarter (a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn dweud bod hyn i'w gyflawni:

(i) yn bennaf, trwy gynrychiolaeth gynhwysfawr o wyddoniaeth, celf, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru, neu sy'n berthnasol iddi

(ii) yn gyffredinol, trwy gasglu, recordio, cadw, esbonio a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, p'un ai a yw'n gysylltiedig â Chymru ai peidio, yr ystyrir eu bod yn mwyhau dealltwriaeth ymhellach ac yn hyrwyddo ymchwil ymhellach.

Mae Amgueddfa Cymru'n gweithredu saith safle ledled Cymru, sef:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan: yr Amgueddfa Hanes Genedlaethol, yr Amgueddfa Lengol Rufeinig Genedlaethol, Caerlion, Pwll Mawr: yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol, Blaenafon, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Dre-fach, Felindre, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

Mae mynediad i bob amgueddfa am ddim diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5. Techniquest

Mae Techniquest yn elusen addysgol yng Nghaerdydd sydd â chenhadaeth Cymru gyfan i gynnwys pobl mewn gwyddoniaeth a'u hysgogi i ddysgu mwy. Mae'r sefydliad yn rhedeg canolfan darganfod a gwyddoniaeth boblogaidd Techniquest sy'n denu 180,000 o ymwelwyr cyhoeddus ac ysgolion y flwyddyn gyda chefnogaeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd ei sefydlu 21 o flynyddoedd yn ôl, ac erbyn hyn mae'r ganolfan, a oedd yn un o'r arloeswyr o'i math, wedi adeiladu enw rhyngwladol cryf fel arweinydd ac arloeswr yn ei maes. Yn dilyn ei symudiad terfynol i gartref parhaol yn natblygiad newydd Bae Caerdydd, mae'r sefydliad wedi gweithio'n galed i gynyddu cwmpas ei weithgareddau, gyda gwasanaethau ar gael yn lleol mewn sawl rhan o Gymru'n cyrraedd 150,000 o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn. Mae partneriaeth yn ganolog i lwyddiant Techniquest ac i'w gynlluniau uchelgeisiol o oresgyn rhwystrau i ymgysylltu â gwyddoniaeth â'r cynulleidfaoedd ehangaf posibl.

Ynghylch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gorff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Ynghylch Ymddiriedolaeth Wellcome

Ymddiriedolaeth Wellcome yw'r elusen fwyaf yn y DU. Mae'n ariannu ymchwil fiofeddygol arloesol, yn y DU ac yn rhyngwladol, ac yn gwario tua £500 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r gwyddonwyr mwyaf disglair gyda'r syniadau gorau. Mae

Ymddiriedolaeth Wellcome yn cefnogi trafodaeth gyhoeddus am ymchwil fiofeddygol a'i heffaith ar iechyd a lles. http://www.wellcome.ac.uk

Ynghylch Cynghorau Ymchwil y DU

Mae'r saith Cyngor Ymchwil yn gyrff cyhoeddus anadrannol, wedi'u hariannu gan y Gyllideb Wyddoniaeth trwy'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau. Cânt eu hymgorffori gan Siarter Frenhinol a chyda'i gilydd maen nhw'n rheoli cyllideb ymchwil o dros £2.8 biliwn y flwyddyn.

Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK) yw'r bartneriaeth rhwng saith Cyngor Ymchwil y DU. Trwy RCUK, mae'r Cynghorau Ymchwil yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r ymchwil, yr hyfforddiant a'r arloesedd maen nhw'n eu cefnogi.

Saith Cyngor Ymchwil y DU yw:

- Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (CYCD);
- Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (CYBGB);
- Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (CYECh);
- Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (CYPGFf);
- Cyngor Ymchwil Feddygol (CYF);
- Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (CYAN);
- Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (CCGTh).

Ynghylch HEFCE

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) sy'n gyfrifol am ddosrannu oddeutu £7.1 biliwn y flwyddyn mewn arian cyhoeddus i brifysgolion a cholegau, i gefnogi addysg ansawdd uchel, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. Hefyd, mae ganddo rôl flaenllaw mewn datblygu a gweithredu polisi ar gyfer addysg uwch, ar sail ymchwil ac ymgynghori.

Ynghylch yr Adroddiad

Dyma'r adroddiad diweddar ar yr agwedd at ymgysylltu â'r cyhoedd: 'Arolwg o ffactorau sy'n effeithio ar gyfathrebu gwyddoniaeth gan wyddonwyr a

pheirianwyr', Y Gymdeithas Frenhinol, RCUK ac Ymddiriedolaeth Wellcome, Mehefin 2006, ac mae ar gael yn http://www.royalsoc.ac.uk/page.asp?id=3180

Cynghorau Ymchwil y DU
Julia Short, Julia.short@rcuk.ac.uk
Ffôn: 01793 444 435 Symudol: 07917557215

Uned Gwyddoniaeth RCUK yn y Gymdeithas RCUK
Gillian Rendle, Ffôn: 01793 442817

Tywysydd Newydd Cymru i ddod â phrifysgolion a'r cyhoedd yn nes at ei gilydd

(Chwith i'r dde)
Mike Tooby, Cyfarwyddwr of Dysgu a Rhaglenni, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales;

(Cefn) Karen Lewis, Rheolwr Partneriaethau, BBC Cymru/Wales;

(Blaen) Dr Rachel Iredale, Cydymaith Ymchwil Hŷn, Prifysgol Morgannwg;

Yr Athro Ken Woodhouse, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymgysylltu, Prifysgol Caerdydd;

Peter Trevitt, Prif Weithredwr, Techniquest;